Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Randdeiliad

**Penderfynu ar y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnig i:

- Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, Rhodfa Beechley, Pentre-baen, Caerdydd, CF5 3SG o 4-11 oed i 3-11 oed drwy sefydlu uned feithrin cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ysgol.

Bwriedir i'r newid ddod i rym o fis Medi 2026.

Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2025, ystyriodd Cabinet y Cyngor y cynnig, y gwrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion a godwyd.
Nodwyd na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.

**Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig fel y nodir uchod heb eu newid.**

Roedd y Cabinet yn fodlon:

- Bod yr ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig wedi ei gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018)
- Bod y cynnig wedi ei gyhoeddi'n unol â gofynion y Cod ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.
- Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei addysgu nac ar unrhyw gyfnod allweddol arall yn yr ysgol.
- Byddai'r cynnig yn cynnal safonau presennol addysg a darpariaeth yn yr ardal.

Roedd y Cabinet yn fodlon hefyd y byddai'r cynnig yn:

- Darparu lleoedd meithrin Cymraeg ychwanegol i wasanaethu teuluoedd lleol.
- Dileu'r angen i deithio i wahanol safleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin, gan effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau logistaidd y gallai ceisio darparwr gofal plant arall eu hachosi.
- Darparu parhad o ran y ddarpariaeth i gefnogi ac ymgorffori ethos a diwylliant yr ysgol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cyntaf posibl.

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.
UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

- Hwyluso’r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (pan fo'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus).
- Adnabod grwpiau sy’n agored i niwed a rhai sydd ag anghenion dysgu yn gynt.
- Cefnogi lles a dysgu disgyblion drwy gael uned y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol.
- Sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.

**Cyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**


Dan adran 54 Deddf 2013 os yw'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, caiff y cyrff canlynol, cyn diwedd y 28 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:

*i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno*
*ii. Corff crefyddol priodol unrhyw ysgol yr effeithir arno*
*iii. Corff Llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol sy’n destun y cynigion*
*iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion; a*
*v. sefydliad addysg bellach y mae’r cynigion yn effeithio arno*

Mae’r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu penderfyniadau’r Cabinet. Os oes galw i mewn ar gyfer y penderfyniad, rhoddir gwybod i’r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â’r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2720 neu e-bostiwch: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

Yn gywir



Richard Portas
**Cyfarwyddwr Rhaglen**
**Trefniadaeth Ysgolion**